**Partneriaeth** Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional **Partnership**

PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG

# STRATEGAETH GWIRFODDOLI RHANBARTHOL

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau gwahanol.

Cysylltwch â Swyddfa Trawsnewid Gorllewin Morgannwg drwy e-bostio west.glamorgan@abertawe.gov.uk gyda manylion eich gofynion.

@WGlamPship

# RHAGARWEINIAD

Ym mis Ionawr 2021, diolch i fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, arweiniodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg bartneriaeth i archwilio ymagweddau rhanbarthol at wirfoddoli. Daeth y bartneriaeth â'r canlynol at ei gilydd:

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- CGG Castell-nedd Port Talbot (CGGCNPT)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Cyngor Abertawe
- CGG Abertawe (CGGA)
- Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg

Mae pob partner yn wahanol o ran sut maent yn gweithio gyda gwirfoddolwyr a sut maent yn eu cynnwys. Mae gan rai partneriaid ymagwedd sefydledig at weithio gyda gwirfoddolwyr ond mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'r holl bartneriaid yn awyddus i barhau i gydweithio o ran gwirfoddoli.

Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r gwaith cefndir a wnaed i ddatblygu'r strategaeth ochr yn ochr â'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ei hun. Mae'r wybodaeth a rennir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r asesiad gwirfoddoli a'r gweithdai trafodaeth a gynhaliwyd gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys gwirfoddolwyr, a chyfarfodydd helaeth yn ystod secondiad blwyddyn o hyd Prosiect Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg.

Adeiladir yr egwyddorion ar arfer gorau megis Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, y Côd Ymarfer ar gyfer sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, a'r Siarter Cydberthnasau Gwirfoddoli a'r Gweithle. Datblygwyd y gweithdai sy'n sail i bob elfen o'r gwaith o'r Fframwaith ar gyfer gwirfoddoli yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol gan Helpforce et al gydag ymchwil ychwanegol yn seiliedig ar arfer gorau a arweiniodd at gynlluniau gweithredu partner ac archwilio themâu cyffredin, Gallwch ddarllen sut rydym yn 'Gweithredu Fframwaith Helpforce et al ar gyfer Cynnwys Gwirfoddolwyr ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn **Atodiad 1.**

## CYD-DESTUN STRATEGOL

**Cymru Iachach**
Cymru Iachach (AHW) yw cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n amlinellu gweledigaeth yn y dyfodol o ymagwedd system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles ac ar atal salwch, gyda mynediad at ystod eang o wasanaethau di-fwlch yn y gymuned. Mae'n cydnabod BPRh fel ysgogwyr allweddol ar gyfer integreiddio, sy'n gallu cyfuno adnoddau ac arbenigedd i ddarparu modelau gofal di-fwlch, ataliol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

**Partneriaeth Gorllewin Morgannwg**
Un o'r rhaglenni strategol allweddol o fewn Partneriaeth Gorllewin Morgannwg yw'r rhaglen Atal a Chydlynu Cymunedol, sy'n eistedd o dan y flaenoriaeth sefydlogi ac ailadeiladu.

**Cronfa Integreiddio Rhanbarthol**
Mae'r rhaglen Atal a Chydlynu Cymunedol yn cyd-fynd â Model Gofal y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Gofal yn y gymuned – atal a chydlynu cymunedol. Dylai'r model hwn o ofal alluogi pobl i aros yn annibynnol cyhyd â phosib trwy gynnal a thyfu rhwydweithiau cymdeithasol pobl a thrwy dyfu'r ffynonellau cefnogaeth yn y gymuned o'u cwmpas nad ydynt yn cael eu defnyddio bob tro.

**Rhaglen Atal a Chydlynu Cymunedol**
Ein huchelgais yw symud gwasanaethau allan o'r ysbyty i gymunedau, ac rydym am gael mwy o wasanaethau sy'n atal pobl rhag mynd yn sâl drwy ganfod pethau'n gynharach, neu eu hatal yn gyfan gwbl. Bydd hyn yn cynnwys helpu pobl i reoli eu hiechyd eu hunain, a rheoli afiechydon tymor hir. Rydym hefyd am ei gwneud yn haws i bobl barhau i fod yn heini ac yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau. Ein gweledigaeth yw:

- Galluogi unigolion i fyw bywydau hirach a hapusach a chymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, gan gynnwys cefnogi eraill yn eu hardaloedd lleol drwy ddatblygu partneriaethau gydag ystod eang o sefydliadau a phobl o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, y trydydd sector a chymunedau i ddarparu cymorth i bobl mewn ardaloedd lleol.
- Darparu iechyd a gofal i bobl y mae arnynt eu hangen, gan bobl sy'n gweithredu fel un tîm ac sy'n gweithio i sefydliadau sy'n gweithredu fel un system.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru wella lles ein poblogaeth yn ogystal ag atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Caiff ei adeiladu o gwmpas saith nod llesiant a phum egwyddor sy'n cael eu hyrwyddo gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'r ffocws ar newid cadarnhaol, hirhoedlog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn ei gwneud yn ysgogwr allweddol ar gyfer atal a chydlynu cymunedol, o ystyried bod yr elfen ataliol yn elfen hanfodol i'r newidiadau a'r penderfyniadau a wnawn heddiw a fydd yn effeithio arnom yn y dyfodol.

**Datblygu Strategaeth Gwirfoddoli:**
Un elfen allweddol o gyflawni ein huchelgais a'n gweledigaeth ar gyfer y rhaglen yw datblygu ein strategaeth wirfoddoli er mwyn i ni allu gwneud y canlynol:

- sicrhau bod y blociau adeiladu ar waith sy'n caniatáu i ni wneud gwelliannau'n rhanbarthol, gan alluogi mwy o bobl i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli o safon
- caniatáu i wirfoddolwyr gael y cymorth gorau posib a fydd yn eu galluogi i gael mwy o effaith ar wasanaethau rhanbarthol
- symud tuag at gasglu data'n gyson a allai arwain at alluogi gwirfoddolwyr i symud rhwng sefydliadau

## CEFNDIR I'R STRATEGAETH

Creodd COVID-19 ddealltwriaeth ddigynsail o rôl a gwerth gwirfoddolwyr. Pan ddigwyddodd y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf ym mis Mawrth 2020 chwaraeodd wirfoddolwyr rôl hynod werthfawr wrth sicrhau bod gan bobl leol fynediad at fwyd a meddyginiaethau. Wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, chwaraeodd wirfoddolwyr rôl bwysig wrth gefnogi'r canolfannau profi a brechu a sefydlwyd.

Arweiniodd y cynnydd hwn mewn gwirfoddoli at amrywiaeth eang o bobl yn gwirfoddoli am y tro cyntaf, a mwy o gydnabyddiaeth gan sefydliadau am werth gweithio gyda gwirfoddolwyr.

Yn ystod 2021 ac ar ddechrau 2022, parhaodd arferion gwirfoddoli ar draws y rhanbarth i ddatblygu. Yng ngaeaf 2021/22, rhannwyd gwirfoddolwyr rhwng sefydliadau yn y bartneriaeth am y tro cyntaf, gyda gwersi'n cael eu dysgu gan gynnwys pwysigrwydd casglu data cyson a chyflwyno hyfforddiant priodol i wirfoddolwyr. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi edrych ar ffyrdd y gallant ddefnyddio gwirfoddolwyr i wella profiad eu defnyddwyr, er enghraifft mewn lleoliadau cartrefi gofal. Mae'r holl bartneriaid yn y bartneriaeth hefyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r hyn y mae cyd-gynhyrchu'n ei gyflwyno wrth iddynt gyflwyno gwasanaethau.

Fodd bynnag, mae gan bob partner yn y bartneriaeth ofynion gwahanol ar gyfer gwirfoddolwyr, mae ganddynt wahanol ffyrdd o weithio gyda gwirfoddolwyr ac maent yn gweld gwirfoddoli'n datblygu yn eu sefydliad mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r holl bartneriaid ar wahanol gamau o ran eu prosesau gwirfoddoli a'u hymagweddau strategol.

Felly, nod y strategaeth hon yw symud tuag at ymagwedd gyson o wirfoddoli ar draws y rhanbarth a chreu cyfres o egwyddorion a rennir.

Ar gyfer y partneriaid sy'n rhan o'r strategaeth hon, y diffiniad o wirfoddoli y cytunwyd arno yw'r un a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru:

"Mae gwirfoddoli’n weithgarwch: sy’n cael ei gyflawni’n rhydd, o ddewis sy’n cael ei gyflawni er budd i’r cyhoedd/y gymuned nad yw’n cael ei gyflawni er mantais ariannol"

Roedd y gwaith sy'n sail i'r strategaeth yn nodi'r angen am ddealltwriaeth ar y cyd o ystyr gwirfoddoli a'r gwahanol fathau o gefnogaeth y gall fod ei hangen ar wirfoddolwyr.

Nid yw cynnwys gwirfoddolwyr yn rhad ac am ddim, mae angen ymrwymo amser ac adnoddau er mwyn i rolau barhau i fod yn ddiogel, yn briodol ac wedi'u rheoli'n dda.

Mae buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer eich gwirfoddolwyr a thalu treuliau ymysg y pethau y dylech gyllidebu ar eu cyfer wrth gynnwys gwirfoddolwyr.

Daw gwahanol fathau o wirfoddoli gyda gwahanol lefelau o risg a bydd cynnwys gwirfoddolwyr yn golygu bod angen diogelu, asesiadau risg, yswiriant a datblygu rolau priodol.

Mae deall anghenion cymorth gwahanol fathau o wirfoddoli yn egwyddor allweddol sy'n rhedeg drwy'r strategaeth. Gellir gweld diagram sy'n dangos sut mae gwahanol fathau o wirfoddoli'n gofyn am wahanol lefelau o gefnogaeth yn Atodiad 2.

## STRATEGAETH GWIRFODDOLI RHANBARTHOL

Pwrpas y strategaeth wirfoddoli rhanbarthol yw:

- sicrhau bod y blociau adeiladu ar waith sy'n caniatáu i welliannau cael eu gwneud yn rhanbarthol, gan alluogi mwy o bobl i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli o safon
- caniatáu i wirfoddolwyr gael y cymorth gorau posib a fydd yn eu galluogi i gael mwy o effaith ar wasanaethau rhanbarthol
- symud tuag at gasglu data'n gyson a allai arwain at alluogi gwirfoddolwyr i symud rhwng sefydliadau
- Gwneir hyn trwy roi'r egwyddorion ar waith sydd wedi cael eu datblygu ar gyfer y strategaeth hon.

## EGWYDDORION

Yn seiliedig ar y gweithdai mae gan bob partner ymrwymiad i wneud y canlynol:

1. mabwysiadu diffiniad Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru (2015 – yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd) o wirfoddoli
2. rhoi cymorth i wirfoddolwyr a chydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr wrth gyflwyno gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo gwirfoddoli'n rhagweithiol
3. darparu eglurder ynghylch y mathau o wirfoddoli a'r lefelau o gefnogaeth y mae eu hangen ar rolau gwirfoddol gwahanol
4. bod yn glir ynghylch yr asesiadau gwahanol ar gyfer addasrwydd, recriwtio ac arferion diogelu ar gyfer gwahanol rolau a'r gefnogaeth y bydd y gwirfoddolwr yn ei dderbyn. Mae hyn yn cynnwys trefniadau sefydlu a goruchwylio priodol. Datblygu polisïau a gweithdrefnau arferi gorau i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau
5. meddu ar ddealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng gwirfoddolwyr a staff ac mae prosesau ar waith i reoli'r ffiniau hyn fel yr amlinellir yn 'Siarter TUC Cymru a CGGC ar gyfer Cryfhau'r Cysylltiadau Rhwng Staff Cyflogedig a Gwirfoddolwyr.
6. mynd ati i chwilio am adborth gan wirfoddolwyr ac ymateb i'r adborth maen nhw'n ei dderbyn
7. deall gwerth rolau gwirfoddoli anffurfiol a ffurfiol a sut y gellid eu defnyddio i ddenu gwahanol fathau o wirfoddolwyr a chynyddu amrywiaeth o ran y bobl sy'n gwirfoddoli

8. ceisio deall cymhellion gwirfoddolwr a'u helpu i gyflawni eu nodau mewn perthynas â gwirfoddoli
9. bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo amrywiaeth yn eu grŵp o wirfoddolwyr a rhoi cyhoeddusrwydd eang i'w cyfleoedd i wirfoddoli gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol, gan gynnwys gwefan Gwirfoddoli Cymru
10. darllen yr wybodaeth ddiweddaraf am yr arfer gorau wrth wirfoddoli a chymryd arweiniad gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) lleol
11. deall pwysigrwydd casglu data o safon am bwy sy'n gwirfoddoli a'r gwahaniaeth mae gwirfoddoli'n ei wneud iddyn nhw ac wrth gyflwyno gwasanaethau
12. darparu cyfleoedd i leisiau gwirfoddolwyr gael eu clywed
13. sicrhau bod y rheini sy'n cefnogi gwirfoddolwyr yn uniongyrchol yn cwblhau hyfforddiant rheoli gwirfoddolwyr ac yn deall arfer da gwirfoddoli
14. cynnal trafodaethau strategol am y gwahanol ffyrdd o gynnwys gwirfoddolwyr a fydd yn helpu i gyflawni a gwireddu eu gweledigaeth

Er mwyn gwella gwirfoddoli ymhellach ar draws y rhanbarth bydd partneriaid yn parhau i gydweithio er mwyn:

- Dod o hyd i ffyrdd i gyd-arddangos effaith gwirfoddolwyr ar draws y rhanbarth ar wirfoddolwr eu hunain a'r sefydliadau maent yn gwirfoddoli ynddynt. Mae hyn yn cynnwys dechrau casglu data tebyg neu gymaradwy ar bwy yw'r gwirfoddolwyr, pa rolau maen nhw'n eu cyflawni a pha mor hir maen nhw wedi bod yn rhan o'r sefydliad. Mae casglu data'n dda yn galluogi partneriaid i ddarparu cyfeiriadau cywir ar gyfer eu gwirfoddolwyr a all helpu wrth ddatblygu'r gweithlu yn y dyfodol
- Nodi mecanweithiau ar gyfer rhannu arfer gorau mewn perthynas â diogelu a rheoli risg
- Amrywio'u grŵp o wirfoddolwyr a mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu mewn perthynas â gwirfoddoli

## CYNLLUN GWEITHREDU

Nod y Strategaeth Gwirfoddoli Rhanbarthol yw symud tuag at ymagwedd gyson at wella ansawdd gwirfoddoli gan gydnabod bod pob partner yn wahanol, bod ganddynt ofynion gwahanol a'u bod yn gweithio mewn cyd-destun lleol gwahanol. Bydd y strategaeth hon yn creu mecanwaith ar gyfer arddangos gwirfoddoli a'i gadw'n weladwy ar lefel ranbarthol.

Mae'r strategaeth hon yn argymell bod partneriaid yn gwneud y canlynol:

- Parhau i weithio ar draws y rhanbarth i sicrhau dealltwriaeth dda o wahanol rolau gwirfoddol a'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i ragor o bartneriaid rhoi cyd-gynhyrchu ar waith yn eu ffyrdd o weithio.
- Arddangos y gwahanol rolau y mae gwirfoddolwyr yn ymgymryd â nhw gyda'r partneriaid a sut maent yn gwella cyflwyno gwasanaethau, yn enwedig o fewn y maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Creu tri gofod rhanbarthol lle gall sgyrsiau am wirfoddoli digwydd:
    1. **Lleisiau Gwirfoddolwyr** - Creu cyfleoedd rheolaidd i wirfoddolwyr o fewn y sefydliadau partner ddod at ei gilydd yn rhanbarthol. Bydd hyn yn helpu i

arddangos enghreifftiau o arfer gorau i wirfoddolwyr ac yn helpu gwirfoddolwyr i ddeall sut y dylai profiad da o wirfoddoli fod. Bydd hefyd yn helpu i greu rhwydwaith anffurfiol o wirfoddolwyr ar draws y rhanbarth. Byddai dyluniad a chynnwys y sesiynau hyn yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda gwirfoddolwyr

2. **Rheolwyr gwirfoddolwyr** - Creu rhwydwaith o reolwyr gwirfoddol o fewn sefydliadau partner i rannu arfer gorau ynghylch gwirfoddoli. Byddai gan y grŵp hwn ffocws penodol ar ddatblygu ffyrdd o symud tuag at ddata cyson, hyrwyddo amrywiaeth ymhlith y grŵp o wirfoddolwyr, rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli, rhannu arfer gorau ar gyfer datblygu cyfleoedd ad hoc i bobl wirfoddoli a thynnu sylw at enghreifftiau lle rhannwyd gwirfoddolwyr rhwng sefydliadau

3. **Grŵp Strategaeth Gwirfoddoli Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg -** Dod â phartneriaid allweddol at ei gilydd i gadw ffocws strategol ar wirfoddoli

- Sefydlu swydd Swyddog Strategaeth Gwirfoddoli Rhanbarthol i barhau gyda momentwm y gwaith a ddechreuwyd eisoes ac i sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei rhoi ar waith. **Gweler atodiad 3**.

**Atodiad 1 – Gweithredu  Fframwaith Helpforce et al ar gyfer Cynnwys Gwirfoddolwyr ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Gweithredu'r Fframwaith ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - dull ar ffurf gweithdy

2022

## Cyd-destun

Cyflwynwyd y Grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws gan Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2021. Nod y cyllid hwn oedd manteisio ar y cynnydd sylweddol mewn gwaith gwirfoddol a ddigwyddodd ledled Cymru yn ystod y pandemig Covid-19. Cynhaliodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg (BPRh) bartneriaeth rhwng:

- CVS Abertawe
- CVS Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Cynhaliwyd Cam 1 o'r gwaith rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021. Datblygodd y gwaith hwn ystod eang o daflenni gwybodaeth a phecynnau cymorth. Cynhaliodd rhywfaint o waith sylfaenol hefyd o amgylch dulliau mwy cydweithredol, traws sefydliadol o ddefnyddio gwirfoddolwyr.

Nododd y cam hwn o'r gwaith yr angen amlwg am fwy o gydweithio hefyd a datblygwyd dyhead am strategaeth ranbarthol i gefnogi gwirfoddoli.



1

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Adnodd a rennir ar gyfer datblygu gwybodaeth

## Er mwyn cefnogi hyn,

crëwyd a chynhaliwyd dwy swydd rhan amser gan BPRh rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2022. Cafodd arbenigwyr mewn gwirfoddoli o CVS Castell-nedd Port Talbot a CVS Abertawe secondiad i'r swyddi hyn. Ynghyd â hyn, darparwyd ychydig o adnodd gan Urban Foundry i gefnogi gweithredu'r cynllun gwaith.

Roedd y cynllun gwaith yn cynnwys datblygu strategaeth ranbarthol ar gyfer gwirfoddoli. Fodd bynnag, roedd Covid-19 yn parhau i roi pwysau trwm ar iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y partneriaid strategol oedd angen bod ynghlwm â datblygu'r strategaeth yn canolbwyntio ar ymateb i'r pwysau gweithredol uniongyrchol a wynebwyd gan y system.

Roedd y cyfyngiadau yn sgil Covid-19, yn ogystal â'r pwysau amser a wynebai'r partneriaid, wedi ein hannog ni i ddatblygu dull mwy arloesol i ddatblygu strategaeth ranbarthol.

Aethom ati i ddatblygu'r Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymhellach, adnodd a grëwyd gan Helpforce at al a'i ariannu gan y Grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws, a'i ddefnyddio fel sail i ddechrau datblygu ein strategaeth wirfoddoli ranbarthol.

Fe wnaethom nodi'r Fframwaith fel adnodd i gyfeirio ato gan ei fod yn ganlyniad o broses ailadroddus sy'n cynnwys grwpiau ffocws gyda 169 o bobl o 89 sefydliad, ymatebion arolwg gan 107 o unigolion a sgyrsiau un i un gyda dylanwadwyr allweddol, gyda phob un wedi llunio cynnwys a fformat yr adnodd.

Mae'r Fframwaith hwn yn cynnig cyfres o gwestiynau cyffredinol y dylid eu hystyried gan bob sefydliad sy'n ymwneud â gwirfoddoli. Gan ddefnyddio'r Fframwaith hwn fel sail, datblygwyd y matrics ymhellach yn erbyn arfer gorau megis y safon ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, y Cod Ymarfer ar gyfer sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r Siarter ar gyfer perthnasoedd yn y gweithle a gwirfoddoli.

Drwy ein gwaith fe weithredom y fframwaith, gan ei ddefnyddio i ddylunio gweithdy a allai wedyn ddarparu'r sylfaen ar gyfer strategaeth ranbarthol.



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Dull gweithredu rhanbarthol i wirfoddoli

Byddai'r dull a ddatblygwyd gennym yn gweithio'r un mor dda mewn unrhyw sefydliad mawr, corff strategol neu sector cyhoeddus lle byddai gwirfoddoli'n digwydd.

Wrth ei wraidd, mae'r strategaethau'n cynnwys tair elfen allweddol:

- **Nawr** - lle ydych chi nawr fel sefydliad, beth yw eich cryfderau a'ch gwendidau
- **Lle**- lle ydych chi eisiau ei gyrraedd fel sefydliad
- **Sut** - sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r lle ydych chi eisiau ei gyrraedd

Gwelsom fod dull gweithdy sy'n archwilio'r tair elfen hyn yn ffordd hynod effeithiol o ran amser i helpu datblygu'r strategaeth. Defnyddiom y Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel ein pwynt cychwynnol a'i gyfuno gyda'r arbenigedd oedd ar gael i ni er mwyn nodi'n wrthrychol sut beth yw 'da' o ran gwirfoddoli mewn sefydliadau mawr yn cynnwys cyrff sector cyhoeddus.

Adeiladwyd ar hynny wedyn gan gyfeirio at ystod eang o ganllawiau arfer da eraill yn cynnwys: Y safon ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, y Cod Ymarfer ar gyfer sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r Siarter ar gyfer perthnasoedd yn y gweithle a gwirfoddoli.

Cynhaliom weithdy gyda phob un o'r partneriaid lleol (Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, CVS Abertawe, CVS Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot). Roedd y gweithdai hyn yn caniatáu'r sefydliadau hynny i ystyried lle'r oedden nhw nawr, lle oedden nhw eisiau ei gyrraedd a sut oeddent am wneud hynny.

Yn dilyn y gweithdai lleol hyn, defnyddiwyd yr wybodaeth i ddrafftio set o egwyddorion rhanbarthol a'r ffordd y gallai'r rhain gael eu defnyddio i greu'r sylfaen ar gyfer gweithio ar y cyd.

Arweiniodd bob gweithdy unigol hefyd at strategaeth fechan a chynllun gweithredu ar gyfer sut y gallan nhw ddatblygu gwirfoddoli ymhellach yn eu sefydliad

Mae canllaw manwl ar y gweithdy wedi'i ddarparu, sy'n disgrifio'n methodoleg a'r fframwaith terfynol.



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Cynllun gweithdy manwl
## Ystyriaethau cefndirol

Cynhaliwyd y gweithdai ar-lein fel nad oedd angen i bobl deithio neu fod wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod pandemig Covid-19. Rydym yn cydnabod nad yw hwn yn amgylchedd hawdd i rai cyfranogwyr ymgysylltu ynddo. Fodd bynnag, helpodd yr amgylchedd ar-lein i wneud y gwaith o baratoi'r gweithdai yn haws yn ogystal â chadw'r costau'n isel a galluogi mwy o bobl i gymryd rhan gan nad oedd angen i bobl deithio.

Er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo y gallant gymryd rhan mor lawn â phosib yn y broses, fe wnaethom sefydlu'r rheolau sylfaenol allweddol canlynol ar gyfer y sesiynau:

- Mae pob llais yn gyfartal ac mae pob profiad yr un mor werthfawr
- Mae cyfle i bawb yn y gweithdy gyfrannu a lleisio'u barn

Yn ogystal, sicrhawyd bod dau hwylusydd ym mhob sesiwn. Golyga hyn y gallai un person (hwylusydd gweithdy medrus) arwain y cyflwyniad, gan sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i leisio'u barn, a gallai'r llall a oedd yn fedrus mewn arfer gorau o ran rheoli gwirfoddolwyr i fynd i'r afael ag unrhyw faterion technegol neu ymarferol, ac ateb unrhyw ymholiadau fyddai'n codi yn ystod y sesiwn.

Pan oedd gwirfoddolwyr yn bresennol yn y sesiwn, roeddem yn sicrhau eu bod yn fodlon cyfrannu ac yn aml byddem yn gofyn iddynt rannu eu safbwyntiau yn gyntaf cyn y byddent yn eu cyflwyno i'r grŵp ehangach.





Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.



## Darpariaeth ymarferol

Cynhaliom sesiwn beilot hefyd gyda gwirfoddolwyr Grŵp Cyd-gynhyrchu Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. Roedd hon yn broses hynod ddefnyddiol gan iddi ein harwain at newid a symleiddio'r gweithdy cyfan. Roedd hyn yn sicrhau ei fod yn fwy hygyrch ac arweiniodd at gynnyrch y gallai pobl ymgysylltu ag ef, yn cynnwys gwirfoddolwyr.

Arweiniodd hyn ni at gymhwyso'r egwyddorion canlynol i gyflwyno:

- Arafu - gan wneud y ddarpariaeth yn hygyrch i bawb
- Byrhau a gwneud y cyflwyniad yn fwy cryno
- Sicrhau bod pob adborth yn cael ei gofnodi
- Copïau caled o wybodaeth ymlaen llaw gydag ychydig o ddyddiau i'w prosesu
- Rhoi cyfle i drafod syniadau ar ôl y gweithdy
- Gweithio ar gyflymder cyson a chynnig cyfle i bobl gael egwylion
- Atgoffa pobl y diwrnod cynt.

## Am ba hyd a lle

Roeddem wedi caniatáu 3 awr ar gyfer bob gweithdy. Fel arfer roeddem wedi gorffen mewn oddeutu 2.5 awr ond roedd yr hanner awr ychwanegol yn sicrhau nad oedd neb yn teimlo eu bod yn cael eu brysio.

Cynhaliom bob un o'n gweithdai ar Zoom ond byddai'r gweithdy'n gweithio'r un mor effeithiol wyneb yn wyneb.



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Cefndir a pharatoad

Cyn y gweithdy fe ddatblygom drosolwg o ddiben ac amcan y gweithdy a chytuno pwy i'w gwahodd. Dangosir hyn yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| **Diben Cyffredinol** | Cefnogi sefydliadau i fyfyrio ar eu dull gweithredu gwirfoddoli presennol, nodi'r lle maent eisiau ei gyrraedd ac adnabod y gweithredoedd allweddol sydd eu hangen i gyrraedd y lle hwnnw. |
| **Amcanion** | Drwy fformat gweithdy byddwn yn:<br>• Deall safle presennol gwirfoddoli mewn sefydliad drwy ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel sylfaen<br>• Deall sut beth yw 'da' mewn gwirfoddoli<br>• Nodi camau gweithredu diriaethol allweddol a fydd yn caniatáu gwirfoddoli i ddatblygu mewn sefydliad |
| **Cyfyngiadau** | Rydym yn cydnabod y bydd y gweithdai yn cyfuno unigolion sydd â throsolwg strategol o wirfoddoli ac unigolion sydd â gwybodaeth weithredol fwy manwl. Nid oes gofyn i bob cyfranogwr allu ateb bob cwestiwn yn y gweithdy. Efallai bydd y drafodaeth yn amlygu meysydd sydd â bylchau mewn gwybodaeth.<br><br>Er bod y sesiwn yn defnyddio sgorio, ffordd o gynorthwyo'r cynlluniau gweithredol yn unig yw diben hynny. Nid oes unrhyw feincnodi ac ni fydd bylchau mewn gwybodaeth yn amharu ar ein gallu i feddwl a myfyrio ar wirfoddoli. Hynny yw, cyn belled â bod gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli mae croeso i chi fynychu. |
| **Gwahoddiadau awgrymedig** | Rydym yn argymell i'r bobl ganlynol fynychu'r gweithdy:<br>• Unigolion â chyfrifoldeb am reoli gwirfoddolwyr<br>• Unigolion sydd â diddordeb mewn defnyddio gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaeth<br>• Unigolion â chyfrifoldeb am gomisiynu gweithgareddau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr<br>• Unigolion sydd â diddordeb mewn datblygu dulliau gweithredu strategol i wirfoddoli |



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Anfonom e-bost cyn y sesiwn hefyd er mwyn sicrhau bod pobl yn deall yr hyn roeddent yn ei fynychu. Dangosir hyn isod. Roedd yr e-bost yn hynod ddefnyddiol i atgoffa pobl am y gweithdy ac yn gymorth i'w paratoi ac i ddarparu dolenni at adnoddau datblygu er mwyn helpu gwelliant parhaus.

## Templed Neges E-bost: I'w anfon at gyfranogwyr cyn y gweithdy

**Neges newydd**

I:

Pwnc:

Diolch o galon i chi am gytuno i fynychu gweithdy Strategaeth Wirfoddoli Ranbarthol Gorllewin Morgannwg ar **[date]** Dylech fod wedi derbyn cais am gyfarfod gyda gwybodaeth i ymuno â'r sesiwn Zoom. Mae croeso i chi ymuno drwy'r ddolen am alwad fideo neu ddeialu dros y ffôn.

**Beth mae'r gweithdai hyn yn eu trafod?**

Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg yn ceisio datblygu strategaeth wirfoddoli ar gyfer rhanbarth Gorllewin Morgannwg. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys chwe gwahanol sefydliad: CVS Castell-nedd Port Talbot, CVS Abertawe, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Cynhelir gweithdy ar gyfer bob sefydliad partner lle byddant yn ymgymryd â hunan-asesiad ar y ffordd maent yn cynnwys gwirfoddolwyr ar hyn o bryd (byddwch yn mynychu fel **[org name]**. Gan ddefnyddio'r chwe chwestiwn a amlinellir yn **Fframwaith Helpforce ar gyfer Cynnwys Gwirfoddolwyr yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, bydd set o ddatganiadau i fyfyrio arnynt sy'n seiliedig ar arfer da gwirfoddoli cenedlaethol. Ar ddiwedd y gweithdy dylai bob partner gael cynllun gweithredu sy'n nodi'r meysydd y gallant wella eu harfer da gwirfoddoli ynddynt. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn cyfrannu at ddatblygiad y strategaeth gwirfoddoli rhanbarthol.



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Neges newydd

**Beth yw arfer da gwirfoddoli?**

Mae **Cefnogi Trydydd Sector Cymru** wedi datblygu set o adnoddau i helpu sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddoli i ddarparu profiad cadarnhaol i wirfoddolwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwirfoddoli'n cael adnoddau addas, bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, eu bod yn creu amgylchedd cynhwysol ar gyfer unigolion sy'n awyddus i gymryd rhan, gan gynnwys datblygu rolau a hyfforddiant priodol. Mae'r adnoddau a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r gweithdai hyn yn cynnwys y **Cod Ymarfer Gwirfoddoli**, **Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr** a'r **Siarter ar gyfer perthnasoedd yn y gweithle a gwirfoddoli**.

**Beth yw eich rôl yn y gweithdy?**

Rydym yn awyddus i glywed eich barn ynghylch yr hyn rydym yn ei wneud fel sefydliad o ran cynnwys gwirfoddolwyr. A ydym yn cynnwys gwirfoddolwyr yn ein cynlluniau/prosesau, pa gefnogaeth sydd ar waith gennym, a oes hyblygrwydd yn ein rolau etc. Yna rydym yn awyddus i glywed os oes gennym feysydd yn eich tyb chi sydd angen eu gwella. Byddwn yn croesawu bob un o'ch sylwadau ac nid oes ateb cywir nac anghywir. P'un a ydych yn wirfoddolwr, ymddiriedolwr neu'n aelod o staff, mae eich barn yn bwysig i ni.

**Pwy fydd yn y gweithdy?**

Rydym yn disgwyl: **[names of attendees/roles]**

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth bydd **[facilitator's name]** yn hwyluso'r gweithdy ar y diwrnod a byddaf i wrth law i gynnig cymorth. Rhowch wybod i mi os ydych yn cael unrhyw drafferth gydag ymuno â'r sesiwn. Fy rhif cyswllt yw **[number]**.

Anfon



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Cynnwys y gweithdy

Datblygom gyflwyniad PowerPoint i gefnogi'r ddarpariaeth ond canfuwyd nad oedd ei angen gan fod y sesiwn wedi'i chynnal drwy sgwrs. Dilynom y fformat canlynol.

## Croeso a chyflwyniadau

Canfuom ei bod yn ddefnyddiol i osod yr olygfa ac ategu diben a ffocws y gweithdy. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Mae'r gweithdy'n cefnogi datblygiad strategaeth wirfoddoli ranbarthol
- Mae 6 phartner lleol yn cymryd rhan ac mae pob un ar wahanol bwynt o ran sut maent yn defnyddio gwirfoddolwyr
- Mae'n seiliedig ar y Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ond drwy arbenigedd CVS Abertawe a CVS Castell-nedd Port Talbot a'u cysylltiadau ag arfer gorau rheoli gwirfoddolwyr yn cynnwys y Cod Ymarfer ar gyfer sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a'r Siarter ar gyfer perthnasoedd yn y gweithle a gwirfoddoli
- Y nod yw tynnu sylw at sut beth yw 'da' o ran gwirfoddoli
- Nid yw hyn yn ymwneud â meincnodi – yn hytrach mae'n ffordd o hyrwyddo trafodaeth
- Mae'n dilyn yr egwyddorion o ddatblygu strategaeth – lle ydych chi nawr, lle ydych chi eisiau ei gyrraedd, a sut ydych chi am wneud hynny
- Nid yw'n bwysig nad yw pobl yn gwybod yr ateb –mae'r gwerth yn dod o ofyn y cwestiwn
- Mae pob llais yn gyfartal yn yr amgylchedd hwn
- Y pwynt terfyn yw ychydig o egwyddorion rhanbarthol.

Fe wnaethom hefyd rannu'r dull gweithredu cyffredinol i'r gweithdy

- Tasg 1 - Hunanasesu lle ydych chi arni o ran gwirfoddoli
- Tasg 2 - Rhoi golwg gwrthrychol arno
- Tasg 3 - Cynllunio gweithredol.



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Tasg 1 - Hunanasesu

Gofynnom i bobl yn unigol roi sgôr allan o 5 i'w sefydliad o ran faint roeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n seiliedig ar y fframwaith. Defnyddiwyd y raddfa ganlynol:

- Rydym yn rhagorol am wneud hyn
- Rydym yn dda am wneud hyn
- Rydym yn weddol am wneud hyn
- Gallwn yn sicr wella ar hyn
- Nid ydym wedi ystyried hyn / nid ydym yn gwybod

Roedd hi'n bwysig ein bod yn pwysleisio yn y rhan hon o'r sesiwn nad oedd y sgorio'n ymwneud â beirniadaeth. Roedd hi'n bwysig ein bod yn pwysleisio nad oedd wir yn gwneud gwahaniaeth petaech yn dewis 0 neu 5, dim ond proses yw hi ar gyfer eich helpu i feddwl am rôl gwirfoddolwyr yn eich sefydliad.

- Mae gan ein sefydliad ddealltwriaeth dda o'r amrywiol ffyrdd rydym ar hyn o bryd/y gallwn gynnwys gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaeth
- Mae gan ein sefydliad broses dda ar waith i gynllunio sut ydym yn cynnwys gwirfoddolwyr a sicrhau bod gennym yr adnoddau ar gael i'w cefnogi
- Mae ein sefydliad yn deall y partneriaid a'r cysylltiadau sy'n helpu i gefnogi'r gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth
- Mae gan ein sefydliad systemau da ar waith sy'n ein galluogi ni i reoli a datblygu ein gwirfoddolwyr
- Mae gan ein sefydliad systemau da ar waith i olrhain y gwirfoddolwyr sydd gennym, y gwahaniaeth a wnânt i'r sefydliad ac rydym yn rhannu hynny'n eang a phobl.

Gan ein bod yn defnyddio Zoom defnyddiom holiadur Zoom i'n helpu ni i wneud hyn. Cynhaliwyd trafodaeth fer ynghylch beth oedd pobl yn eu hystyried yn gryfderau a gwendidau.



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Tasg 2 - Rhoi golwg gwrthrychol arno

Yna, roedd y rhan fwyaf o'r sesiwn yn cael ei threulio'n gweithio ein ffordd drwy'r fframwaith. Y bwriad gwreiddiol oedd mynd drwy bob datganiad a chael pobl i roi sgôr iddynt eu hunain. Dengys ein sesiynau peilot cynnar na fyddai'r dull hwn yn gweithio. Yn hytrach, aethom ati i greu rhestr o gwestiynau a fyddai'n agor trafodaeth ynglŷn â gwahanol feysydd y fframwaith.

Gallai'r hwylusydd wedyn ddefnyddio'r fframwaith i ofyn unrhyw gwestiynau dilynol neu holi ac archwilio. Daeth yn glir yn ystod ein gweithdai nad oedd unrhyw weithgarwch yn digwydd mewn rhai meysydd o'r fframwaith. Roedd y dull o ddefnyddio cwestiynau agored yn ein galluogi ni i symud yn gyflym drwy rai meysydd a threulio cyfnod hirach ar y meysydd hynny oedd angen eu datblygu ymhellach.





Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Cwestiynau a Ddefnyddiwyd yn y Gweithdy

| | Is-thema | Cwestiynau'r hwylusydd | Beth sy'n dda? |
|---|---|---|---|
| Cynnwys Gwirfoddolwyr | **Eglurder a Gweledigaeth** | Sut ydych yn cynllunio ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr? | Gwyddom pam rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth glir o le mae'n briodol i wirfoddolwyr fod yn rhan o ddarparu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys elfennau a glustnodir ar gyfer gwirfoddolwyr ac elfennau a glustnodir ar gyfer cyflogeion<br><br>Mae gennym fecanwaith i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y cylch cynllunio |
| | | A fyddwch chi byth yn cael trafodaethau ynglŷn â sut all gwirfoddolwyr eich helpu chi i gyflawni eich gweledigaeth? | Rydym wedi ystyried sut all rolau gwirfoddoli ein helpu ni i gyflawni ein gweledigaeth |
| | | A oes cyfleoedd i drafod pam rydych yn cynnwys gwirfoddolwyr? | Rydym wedi nodi rhesymau cadarnhaol dros ddefnyddio gwirfoddolwyr, nid yw'n ymwneud â lleihau costau |
| | **Rolau Gwirfoddoli** | Sut ydych yn penderfynu ar rolau gwirfoddol? | Rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr mewn gwahanol rolau a gwahanol dasgau. Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd ar draws y sefydliad |



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Cwestiynau a Ddefnyddiwyd yn y Gweithdy

| | Is-thema | Cwestiynau'r hwylusydd | Beth sy'n dda? |
|---|---|---|---|
| Cynnwys Gwirfoddolwyr | **Rolau Gwirfoddol** | Beth yn eich barn chi yw'r gwahaniaethau mwyaf rhwng gwirfoddolwyr a staff? | Mae gennym ddealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng profiad gwaith, lleoliadau addysgol, interniaeth, ymgysylltu â defnyddwyr a gwirfoddoli – a rhwng gweithiwr a gwirfoddolwr<br>Mae rolau gwirfoddoli yn hyblyg<br>Mae gwirfoddoli wedi'i gynllunio'n strategol ac mae yna fecanwaith ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr mewn ymateb i argyfwng |
| | | A oes gennych chi broses ar gyfer gwahaniaethu rhwng gwirfoddolwyr a staff? Beth sy'n digwydd mewn argyfwng? | Mae gwirfoddolwyr a chyflogeion yn hawdd i'w hadnabod a chanddynt rolau unigryw a chyflenwol, hyd yn oed mewn cyfnodau o argyfwng neu anghydfod |
| | **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** | Pa weithdrefnau sydd gennych ar waith i hyrwyddo amrywiaeth ymysg gwirfoddolwyr? Beth yn eich tyb chi yw'r cryfderau a'r gwendidau ynghylch hyn? | Rydym yn dylunio rolau i ddenu amrywiaeth a darparu ar gyfer gwirfoddolwyr amrywiol er mwyn hwyluso ymgysylltiad cymunedol eang<br>Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddolwyr ddefnyddio'r Gymraeg<br>Rydym yn ystyried sut i gynnwys gwirfoddolwyr o wahanol gefndiroedd<br>Rydym yn ymdrechu i ddenu ystod amrywiol o wirfoddolwyr |



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Cwestiynau a Ddefnyddiwyd yn y Gweithdy

| | Is-thema | Cwestiynau'r hwylusydd | Beth sy'n dda? |
|---|---|---|---|
| Cynllunio ar gyfer Gwirfoddolwyr | **Rheoli Risg** | Sut ydych chi'n mynd ati i reoli risg wrth ddefnyddio gwirfoddolwyr? Beth wnewch chi o ran sgrinio, recriwtio a diogelu? | Rydym yn cynnal asesiad risg ar dasgau sy'n cael eu gwneud gan wirfoddolwyr, ac mae hyn yn cynnwys ystyriaeth benodol o ddiogelu<br>Rydym yn trefnu sicrwydd yswiriant priodol<br>Rydym yn sicrhau bod ein prosesau recriwtio a sgrinio yn gymesur |
| | **A ystyrir** | Pa ddiffiniad o wirfoddoli ydych chi'n ei ddefnyddio? | Rydym yn defnyddio diffiniad clir o wirfoddoli |
| | | A ydych chi'n defnyddio gwirfoddolwyr ffurfiol ac anffurfiol? | Rydym yn deall y gwahaniaeth rhwng gwirfoddoli ffurfiol ac anffurfiol sy'n ein tywys ni i recriwtio a chefnogi'n gymesur |
| | | A oes gennych chi ddulliau penodol o reoli gwirfoddolwyr? A ydynt yn cyfrannu at gynllunio strategol? | Mae gennym staff penodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr |



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Cwestiynau a Ddefnyddiwyd yn y Gweithdy

| | Is-thema | Cwestiynau'r hwylusydd | Beth sy'n dda? |
|---|---|---|---|
| Cynllunio ar gyfer Gwirfoddolwyr | A ystyrir | A oes gennych gyllideb ar gyfer gwirfoddoli? | Mae gennym gyllideb ar gyfer gwirfoddoli sy'n cynnwys hyfforddiant, datblygu ac ad-dalu treuliau |
| | | A fyddwch chi'n ystyried yr iaith y byddwch yn ei defnyddio mewn perthynas â gwirfoddoli? | Rydym yn ymwybodol o'r iaith a ddefnyddiwn mewn perthynas â gwirfoddoli fel nad ydym yn awgrymu unrhyw berthynas cytundebol â'n gwirfoddolwyr. Er enghraifft: Disgrifiad rôl bob amser, nid disgrifiad swydd |
| Gyda phwy rydym yn gweithio | Darparwyr | Pa gymorth sydd ar gael i staff sy'n rheoli gwirfoddolwyr? | Rydym yn sicrhau bod ein staff yn derbyn hyfforddiant mewn rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr |
| | | | Rydym yn sicrhau bod ein staff yn deall ein polisi a gweithdrefnau gwirfoddoli |
| | | | Mae ein staff yn deall sut mae gwirfoddoli'n ein helpu i ddarparu gwasanaethau |
| | | Sut ydych yn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'u lle? | Mae ein gwirfoddolwyr yn deall y rhan maent yn ei chwarae o ran helpu darparu'r gwasanaeth |
| | Rhanddeiliaid | Pwy fyddwch yn eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â pha waith gwirfoddol y dylid ei gynnal? | Mae cyfle rheolaidd i wirfoddolwyr, cyfranogwyr, undebau llafur/staff i drafod gwirfoddoli yn cynnwys y cyfle i adolygu polisïau, gweithdrefnau, rolau a'r adborth a dderbyniwyd |



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon yn 2021-22, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth ar y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Cwestiynau a Ddefnyddiwyd yn y Gweithdy

| | Is-thema | Cwestiynau'r hwylusydd | Beth sy'n dda? |
|---|---|---|---|
